**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**Ystafell Dderbyn yr Arglwydd Faer - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghoryddwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gar |
| Rob Jones | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Maria Battle | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Medwin Hughes | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Edward Tomp | Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd |
| Steve Wilks | Prif Ysgol Abertawe |
| Emma Woollett | Bwrdd Lechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid Dinas-ranbarth Abertawe (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jonathan Burnes | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Jo Hendy | Cyngor Sir Benfro |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata - y Fargen Ddinesig (Cyngor Sir Gâr) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gar) |
| Helen Morgan | Rheolwr Datblygu Economaidd (Cyngor Sir Gar) |
| Steve Phillips | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gar) |
| Ian Westley | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Benfro) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr)

## 41 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 42 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

## 43 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

### 1) Dr Jonathan Burnes - Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe

Croesawodd y Cynghorydd Rob Stewart (Cadeirydd) Dr Jonathan Burnes i'r cyfarfod. Cafodd Dr Burnes ei benodi'r ddiweddar yn Gyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe a byddai'n dechrau'r rôl ym mis Mawrth 2020.

## 44 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 45 Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Llafar)

**Sir Gaerfyrddin**
Mae'r prosiect Pentref Llesiant yn datblygu'n dda. Mae trafodaethau â'r Partner Academaidd bron â dod i ben. Trefnwyd cyflwyno Achos Busnes y Prosiect i'r Cydbwyllgor yn ystod gwanwyn 2020. Byddai'r prosiect hefyd yn destun Adolygiad Cymheiriaid.

**Castell-nedd Port Talbot**
Trefnwyd cyflwyno Achos Busnes Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer i'r Cyd-bwyllgor ym mis Chwefror 2020.

**Sir Benfro**
Roedd gwaith ar brosiect Morol Doc Penfro yn datblygu'n dda. Gofynnodd y Llywodraethau am wybodaeth ychwanegol yr aed i'r afael â hi eisoes; fodd bynnag, anfonwyd ymateb ffurfiol ar 27 Ionawr 2020. Roedd yr awdurdod hefyd wrthi'n trafod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart MP.

**Abertawe**
Roedd prosiect Abertawe Ganolog - Cam 1 yn datblygu'n dda ac mae'r contractwyr ar y safle ar hyn o bryd.

**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**
Roedd prosiect y pentref blychau'n datblygu'n dda fel rhan o'r datblygiad newydd yng **Nglannau SA1 Abertawe**.

Prifysgol Abertawe
Roedd prosiect Datblygu Campysau Prifysgol Abertawe yn datblygu'n dda.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi'r diweddariadau.

## 46 Adroddiad Monitro Ariannol 2019/20 - Sefyllfa Alldro Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor adroddiad a oedd yn amlinellu sefyllfa alldro rhagweledig diwedd y flwyddyn mewn perthynas â swyddogaethau gweinyddol Swyddfa Rheoli'r Rhaglen, y Corff Atebol a'r Cyd-bwyllgor.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cyd-bwyllgor yn adolygu cyfrifon blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

## 47 Amodau a Thelerau Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Llafar)

Darparodd y Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor y diweddaraf mewn perthynas ag Amodau a Thelerau Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Dyfarnu Grantiau. Dywedodd y rhyddhawyd cyfran gyntaf y £18,000,000 a disgwylir rhyddhau cyfran bellach cyn 31 Mawrth 2020.

Dywedodd y trefnwyd i Swyddogion Adran 151 gwrdd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 3 Chwefror 2020 er mwyn trafod y Cytundeb Ariannu sydd yn nwylo'r cwmni cyfreithiol Geldards ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 48 Trefniadau Llywodraethu Archwilio Mewnol.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cyngor Sir Benfro), Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor, adroddiad a oedd yn amlinellu'r Siarter Archwilio Mewnol. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb am ddarparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac yn cadarnhau safle Archwilio Archwiliad Mewnol o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys llinellau adrodd y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Siarter Archwilio Mewnol Drafft a Chylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2019-2020 fel y'i hatodir yn yr adroddiad.

## 49 Cynllun Gweithredu (Fersiwn 22).

Cyflwynodd y Swyddfa Ranbarthol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Rhoi ar Waith.

**Penderfynwyd** mabwysiadu fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Rhoi ar Waith.

## 50 MIPIM 2020.

Cyflwynodd y Swyddfa Ranbarthol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer presenoldeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn MIPIM 2020 a'r costau cysylltiedig.

**Penderfynwyd** cymeradwyo presenoldeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn MIPIM 2020 a'r costau cysylltiedig.

## 51 Cefnogi Prosiect Arloesedd a Thwf Carbon Isel (Castell-nedd Port Talbot).

Cyflwynodd y Swyddfa Rhanbarthol adroddiad a oedd yn amlinellu'r Prosiect Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel. Datblygwyd y prosiect er mwyn cyflwyno twf cynaliadwy a chreu swyddi mewn modd cyd-drefnus sydd â ffocws penodol ar ardal Glannau Harbwr Port Talbot.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Ystyried yr adborth gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd ar y prosiectau Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel;

2) Cymeradwyo cyflwyno'n ffurfiol gynllun busnes pum achos llawn y prosiect Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;

3) Rhoi pwerau dirprwyedig i swyddogion wneud unrhyw fân ddiwygiadau sy'n angenrheidiol i gael y gymeradwyaeth honno.

## 52 Amodau a Thelerau a'r Diweddaraf am Ddyfarnu Grantiau. (Llafar)

Roedd yr eitem hon yn ddyblygiad o Gofnod 47 "Amodau a Thelerau Bargen Ddinesig Bae Abertawe" ac felly cafodd ei thynnu o'r agenda.

## 53 Diweddariad gan Gyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe. (Llafar)

Croesawodd y Cadeirydd Dr Jonathan Burnes i'r cyfarfod. Cafodd Dr Burnes ei benodi'r ddiweddar yn Gyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe a byddai'n dechrau'r rôl ym mis Mawrth 2020.

## 54 Adborth gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE). (Llafar)

Rhoddodd Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE) y diweddaraf am ei waith diweddar.

- Cyfweld ag Ymgeiswyr fel Ymgynghorwyr i'r BSE;

- Paratoi dogfen Egwyddorion Caffael i'w hystyried gan y Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth 2020.

**Penderfynwyd** nodi'r adborth.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.32 pm

**Cadeirydd**